RHIFYN
ISSUE
15
05.11.19

Llais Llantrisant

GWAITH ATGYWEIRIO
REPAIR WORK

Fel y gwyddoch, efallai, daeth y gwaith o adnewyddu rhan o do'r ysgol i ben ychydig o wythnosau yn ôl. Newyddion da iawn! Yn anffodus, nid yw'r newyddion cystal ynglŷn â'r caban ar iard Cyfnod Allweddol 2. Nid oedd yn bosibl i'r hen gaban a'r caban newydd gael eu lleoli ar dir yr ysgol yn ystod gwyliau Hanner Tymor, fel ag y cynlluniwyd. Mae hyn oherwydd problemau â'r tir. Gobeithio na fydd y sefyllfa hon yn parhau yn rhy hir gan ein bod yn gweld eisiau defnydd o'r caban!

As you may be aware, the work of replacing half of the school roof came to end a few weeks ago. Very good news! Unfortunately, the news isn't as good in relation to the portakabin works on the Key Stage 2 yard. It was not possible to relocate the old portakabin and adjoin a second, new portakabin during the Half Term holidays as planned. This is due to problems with the land. It is hoped that this situation will not be drawn out much longer since we miss having the use of the portakabin!



GADAEL YN GYNNAR
LEAVING EARLY

Mae'n syndod faint o argyfyngiadau teuluol neu apwyntiadau meddygol sydd gan nifer o blant diwrnod olaf y tymor neu hanner tymor. Hoffem fanteisio ar y cyfle i atgoffa pawb fod yr ysgol yn cau am 3:30 yp ar bob diwrnod olaf yr hanner tymor / tymor a hefyd ar bob dydd arferol.

It's quite astonishing how many family emergencies arise or medical appointments are arranged for the last day of a half term or term. We should like to take the opportunity to remind everyone that school closes at 3:30 pm on each last day of half term / term and, indeed, on any school day.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

07.11.19 - Gala Nofio'r Urdd (Pwll Ynysawdre)
The Urdd Swimming Gala (Ynysawdre Pool)
08.11.19 - Diwrnod Gwrth-Fwlio - gwisgwch ddillad glas
Anti-Bullying Day - wear blue clothing
11.11.19 - Wythnos Gwrth-Fwlio
Anti Bullying Week
18.11.19 - Diwrnod Cau HMS
INSET Closure Day
20.12.19 - Diwrnod Olaf y Tymor am 3:30 yp
Last Day of Term at 3:30 pm

TWRNAMAINT PÊL-RWYD YR URDD
THE URDD NETBALL TOURNAMENT

Ar 22.10.19, teithiodd grŵp o ferched i Ganolfan Hamdden Llantrisant gyda Mrs Jenkins, Mrs Jones ac un o'n rhiant-wirfoddolwyr, Mrs Wheeler, i gymryd rhan yn nhwrnamaint pêl-rwyd Yr Urdd. Chwaraeodd y merched yn arbennig o dda gyda Thîm A yn symud ymlaen i'r rownd nesaf fis Ionawr. Pob lwc, ferched!

On 22.10.19, a group of girls travelled to Llantrisant Leisure Centre with Mrs Jenkins, Mrs Jones and one of our parent volunteers, Mrs Wheeler, to take part in the Urdd Netball Tournament. The girls played very well with Team A moving on to the next round in January. Good luck, girls!



Y GRhA
THE PTA

Hanner Tymor diwethaf, bu llawer o drafodaethau ymysg aelodau Senedd yr Ysgol am weithgarwch y GRhA a phwrpas yr holl ddigwyddiadau cyffrous a drefnir i'r plant. Gofynnwyd i'r plant feddwl am syniadau i'w rhoi gerbron y GrhA am y pethau a hoffai'r Senedd gael i bawb yn yr ysgol. Yn dilyn nifer o gyfarfodydd, penderfynwyd y byddai'r plant yn hoffi buddsoddi mewn set newydd o 'Chromebooks' ac i newid y byrddau gwyn rhyngweithiol yn yr ysgol. Ar ran yr holl blant, diolch i'r GRhA am drefnu Disgo Calan Gaeaf llwyddiannus yn ddiweddar! Cofiwch fwrw golwg ar dudalen y GRhA ar wefan yr ysgol.

Last Half Term, many discussions took place amongst the various committees of the School Parliament regarding the work of the PTA and the purpose behind the many exciting events planned for the children. The children were asked to think of ideas to present to the PTA regarding the types of things they would like to ask for all pupils in the school. Following many meetings, it was decided that the children would like to invest in a bank of new 'Chromebooks' and to change the interactive whiteboards in the school. On behalf of all the children, many thanks to the PTA for organising a very successful Hallowe'en Disco recently! Remember to regularly check the PTA's page on the school website.



DIWRNOD GWRTH FWLIO
ANTI BULLYING DAY



Gofynnir i'r plant gefnogi'r diwrnod arbennig yma trwy wisgo dillad glas i'r ysgol ar 08.11.19. Bydd y diwrnod yma yn achlysur arbennig i gyflwyno'r wythnos wrth-fwlio a fydd yn dechrau ar 11.11.19. Cofiwch, fel pob diwrnod arall heb wisg ysgol, mae hyn yn ddewisol.

The children are asked to support this special day by wearing blue clothing to school on 08.11.19. This day will be a special event before we carry on to support Anti Bullying Week beginning 11.11.19. Remember, as is the case with every special non-uniform day, this is optional.

LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Hoffem longyfarch Miss Lauren Snell a Mr Euros Jones a oedd wedi priodi yn ystod gwyliau Hanner Tymor. Dymuniadau gorau a phob lwc iddynt. *We should like to congratulate Miss Lauren Snell and Mr Euros Jones who got married during the Half Term break. Best wishes and good luck to them both.*



SEIRI COED
CARPENTERS

Ar hyn o bryd, nid yw Mr Price, Gofalwr yr Ysgol, yn y gwaith oherwydd iddo gael llawdriniaeth ar ei benglin - dymuniadau da iddo fe. Mr Price adeiladodd yr holl offer pren y tu fas i ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Erbyn hyn, mae angen set arall o'r adnoddau hyn tu fas i Ddosbarth Mrs Morrish - Dosbarth 5 / Blwyddyn 2. Tybed a oes seiri coed yng nghymuned yr ysgol a fyddai'n fodlon gwirfoddoli (am ddim!) i greu cegin faw a mainc i blant Blwyddyn 2? Gan fyw mewn gobaith, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda!

At the moment, Mr Price, the school's Caretaker, is not at school due to knee surgery - best wishes to Mr Price. It was Mr Price who built all the wooden equipment outside the Foundation Phase classrooms. By now, we find ourselves needing a further set of equipment for the area outside Mrs Morrish's class - Class 5 / Year 2. We were wondering whether there are any talented carpenters in the school community who would be happy to volunteer (free of charge!) to create a mud kitchen and bench for the Year 2 children? Here's hoping - please contact us!



BRECHIAD Y FFLIW
FLU VACCINATION




Cofiwch y bydd tîm o Nyrsys ysgol gyda ni cyn bo hir er mwyn imiwneiddio holl blant yr ysgol rhag y ffliw. Cewch ddyddiad newydd maes o law wedi i ni orfod gohirio'r sesiwn a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 13.11.19. Brechlyn ffliw chwistrell trwynol fydd y modd o imiwneiddio felly ni ddisgwylir hyn i achosi gormod o ofid i'r plant. Bydd y nyrsys yn dechrau gyda'r plant lleiaf, Dosbarth 1 gan fod angen rhiant ar bob plentyn, cyn symud eu ffordd trwy'r ysgol. Sicrhewch eich bod wedi dychwelyd y gwaith papur angenrheidiol, os gwelwch yn dda, i roi / peidio â rhoi caniatâd. Ni fydd amser ar y dydd i gysylltu â rhieni sydd heb sicrhau fod y gwaith papur gan y Nyrsys. Cliciwch ar y logos i ddarllen rhagor. Cliciwch yma hefyd [Llythyr GIG Cymru](#).

Please remember that a team of School Nurses will be with us shortly to immunise every child against the flu. You will receive a new date following the postponement of the visit scheduled for 13.11.19. This immunisation will take the form of a nasal spray vaccine so we do not foresee too much worry for the children. The nurses will begin the task with the youngest children, Class 1 since they need a parent in attendance, before then making their way throughout the school. Please ensure you have returned all relevant paperwork to give / not give consent. There will be no time on the day to chase up missing paperwork. Click the logos to read more. Also click here [NHS Wales Letter](#).

TALIADAU AR-LEIN
ONLINE PAYMENTS

Diolch yn fawr iawn i'r rhai sy'n talu am giniawau ac ymweliadau ar-lein erbyn hyn. Er, gan ystyried maint yr ysgol, canran fechan iawn o bobl sy'n manteisio ar y cyfle hwn i dalu'n ddiogel. Gofynnir yn garedig i bawb ystyried defnyddio'r modd yma o dalu gan ein bod yn anelu at fod yn ysgol ddi-arian, ddiogel. Er mwyn hwyluso'r broses, defnyddiwch y [dudalen hon](#) ar wefan yr ysgol. Yn ogystal, gofynnir i bawb sicrhau eu bod yn talu am y pethau cywir pan yn ymweld â thudalen talu ar-lein RCT. Mae dod o hyd i daliadau coll yn y system wedi i rywun dalu am ymweliad Blwyddyn 4 â Techniquest yn lle cinio ysgol, er enghraifft, yn achosi llawer o waith. Felly, byddwch yn ofalus, da chi!

Many thanks to those who are paying for lunches and trips online by now. Although, considering the size of the school population, a very small percentage of people are taking advantage of this secure means of payment. Everyone is urged to use this secure mode of payment please since we are aiming at becoming a cashless, secure payments school. To help the process, please use [this page](#) on the school website. In addition, everyone is kindly asked to be very careful when visiting RCT's online payment page. Finding missing payments in the system when someone pays for, shall we say, Year 4's trip to Techniquest under the school lunches tab is quite a feat! So, please be careful!



SGRÎN 1 / *SCREEN 1*
O dan 'All Shops' dewiswch YGG Llantrisant
Under 'All Shops' choose YGG Llantrisant

SGRÎN 2 / *SCREEN 2*
Nesaf, fe welwch chi'r holl opsiynau mewn rhestr. Sicrhewch eich bod yn talu ar gyfer y peth iawn!
Next, you will see all options in a list. Ensure you are paying for the correct thing!

